Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Sir Gâr
# Campws y Graig
# Heol Sandy
# Llanelli
# SA15 4DN

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/10/2013**

## Cyd-destun

Mae Coleg Sir Gâr yn goleg addysg bellach cyffredinol mawr sydd â champysau yn Llanelli, Rhydaman, Gelli Aur, Pibwrlwyd a Ffynnon Job. Mae ganddo drosiant blynyddol o £30 miliwn ac mae'n cyflogi tua 850 o staff. Mae mwyafrif y dysgwyr yn byw yn Sir Gaerfyrddin, gyda niferoedd sylweddol ohonynt yn byw yn Sir Benfro, Abertawe a Cheredigion. Mae'r coleg yn darparu cyrsiau mewn 15 o feysydd pwnc sector o lefel mynediad trwodd i lefel 4. Mae ganddo ddarpariaeth addysg uwch sylweddol. Mae niferoedd mwyaf y cofrestriadau mewn Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal, y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi, Celf a Dylunio a Sylfaen i Waith. Yn 2010-2011, roedd 2,760 o ddysgwyr amser llawn a 7,583 o ddysgwyr rhan-amser yn dilyn rhaglenni Addysg Bellach yn y coleg. Roedd 380 o ddysgwyr amser llawn a 587 o ddysgwyr rhan-amser yn dilyn rhaglenni Addysg Uwch. Roedd tua hanner o'r holl ddysgwyr amser llawn a thua 60% o'r holl ddysgwyr rhan-amser yn fenywod. Mae dros 80% o ddysgwyr amser llawn yn 16-19 oed ac mae tua 64% o'r holl ddysgwyr rhan-amser yn 25-64 oed. Mae tua 8% o'r holl ddysgwyr o grwpiau lleiafrifol. Yn 2010-2011, roedd 765 o ddysgwyr amser llawn a 700 o ddysgwyr rhan-amser yn medru'r Gymraeg yn y coleg.

Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2011), mae nifer o ardaloedd difreintiedig yn Sir Gaerfyrddin, a nifer fach ohonynt yn y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r rhain yn bennaf o amgylch y canolfannau poblogaeth mwy yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Rhydaman. Mae data o'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) yn dangos bod tua 14.8% o ddysgwyr yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Sir Gaerfyrddin.

Mae data Llywodraeth Cymru ar gyfer Mawrth 2013 yn dangos bod 66.2% o breswylwyr Sir Gaerfyrddin dros 16 oed mewn swydd o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 67.3%. Dengys y data fod 72% o oedolion oedran gweithio yn meddu ar gymhwyster o leiaf ar lefel 2, o gymharu â 74% ar gyfer Cymru. Yn yr un modd, mae 33% o'r oedolion oedran gweithio yn meddu ar gymhwyster ar lefel 4 neu'n uwch, o gymharu â 32% ar gyfer Cymru. Mae canran yr oedolion oedran gweithio heb gymhwyster, sef 13%, ychydig uwchlaw'r 11% ar gyfer Cymru. Mae tua 8,500 o unedau busnes yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r gyfran uchaf o fusnesau ym maes tir, manwerthu, adeiladu a gweinyddu.

Yn ôl cyfrifiad 2011, mae tua 46% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg. Hon yw'r ganran bedwaredd uchaf yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn byw yn Sir Gaerfyrddin.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y coleg yn dda oherwydd:

- mae cyfraddau llwyddo ar draws y coleg yn dda ar y cyfan ac maent wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn;
- mae'r coleg yn perfformio'n dda yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu, a cheir perfformiad uchel mewn chwe maes dysgu;
- mae'r coleg yn perfformio'n dda mewn Safon Uwch, mewn Diplomâu Cenedlaethol ac Estynedig ac yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru, ac mae llawer o ddysgwyr yn ennill graddau uchel;
- mae dysgwyr o grwpiau lleiafrifol a'r rhai o ardaloedd ag amddifadedd uchel yn perfformio'n dda yn y coleg;
- mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn cael cymorth da yn y coleg ac mae hyn yn eu galluogi i wneud cynnydd da â'u dysgu; ac
- mae ethos darpariaeth a chyfle cyfartal i bob dysgwr ar draws holl safleoedd y coleg yn galluogi dysgwyr o bob cefndir i lwyddo.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r coleg yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli wedi gosod blaenoriaethau clir ar gyfer y coleg ac mae ganddynt dargedau heriol ar gyfer gwella;
- mae gan y Corff Llywodraethol weledigaeth glir ar gyfer dyfodol y coleg ac mae llywodraethwyr yn cefnogi ac yn herio staff i gyflawni safonau uchel;
- mae gan y coleg hanes da o reoli newid ac wrth fynd i'r afael ag argymhellion Estyn o arolygiadau blaenorol;
- mae'r coleg yn rheoli ei gyllid yn dda ac yn defnyddio ei adnoddau ariannol yn briodol i wella ansawdd a safonau;
- mae'r coleg wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu'r nodau strategol a osodwyd gan y pennaeth ers ei benodi;
- mae gan y coleg systemau sefydledig i adolygu ei gynnydd, mae'n gwybod yn dda beth yw ei gryfderau a'i wendidau ac mae ganddo gynlluniau clir a heriol ar gyfer gwella;
- mae'r coleg wedi gwneud cynnydd da wrth wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn unol â'i nod i gyflawni rhagoriaeth.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau yn y meysydd hynny lle maent islaw targedau'r coleg ar gyfer cwblhau yn llwyddiannus

A2 Gwella addysgu a dysgu ym mhob maes i gyflawni rhagoriaeth yn unol â chynlluniau strategol y coleg

A3 Gwella lefel y gwahaniaethu ac ansawdd yr holi mewn addysgu i gynnig digon o her i ddysgwyr o bob gallu

A4 Annog dysgwyr i gwblhau mwy o'u dysgu ffurfiol yn Gymraeg neu yn ddwyieithog ac ennill mwy o gymwysterau yn Gymraeg a/neu yn ddwyieithog

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd arolygydd cyswllt y coleg yn monitro cynlluniau gweithredu a'r cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion uchod.  Bydd gofyn i'r coleg gyflwyno astudiaethau achos o effeithiolrwydd eu gweithio mewn partneriaeth, y trefniadau ar gyfer dysgwyr mwy abl a dawnus a'r trefniadau ar gyfer gwella medrau llythrennedd dysgwyr.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae pob un o'r dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau arnynt yn dda. Mae cyfraddau cwblhau llwyddiannus wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn o 2009 i 2012 ar gyfradd debyg neu ychydig uwchlaw'r gyfradd ar gyfer yr holl golegau yng Nghymru. Mae data nas gwiriwyd ar gyfer 2011 i 2012 yn dangos bod y cyfraddau llwyddo hyn wedi cael eu cynnal yn unol â cholegau eraill yng Nghymru, er bod y gyfradd cyrhaeddiad gyffredinol ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol. Yn 2010-2011, roedd y coleg yn hanner uchaf yr holl golegau yng Nghymru o'u trefnu yn ôl eu cyfraddau llwyddo ar gyfer yr holl gyrsiau. Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau arnynt yn arbennig o dda mewn Manwerthu a Menter Fasnachol, Manwerthu, Gwallt a Harddwch, Lletygarwch, Celf a Dylunio a Medrau Byw yn Annibynnol.

Mae dysgwyr yn cyflawni safonau uchel ar y cyrsiau Diploma Cenedlaethol. Yn 2010-2011, llwyddodd dros draean o ddysgwyr i gyflawni tair gradd Anrhydedd a chyflawnodd dros ddau o bob tri ohonynt dair gradd teilyngdod neu'n well. Mae dysgwyr yn cyflawni'n dda ar y cyrsiau Diploma Estynedig, a chyflawnodd 22% ohonynt broffil graddau D*D*D* neu DDD yn 2011-2012. Llwyddodd dros hanner y dysgwyr i gyflawni tair gradd Teilyngdod neu'n well. Cyflawnodd tua chwarter o'r holl ddysgwyr ar gyrsiau Diploma Cyntaf raddau D neu D* yn 2010-2011.

Mae cyfraddau cyrhaeddiad yn dda ar gyrsiau Safon Uwch; cyflawnodd 99% o ddysgwyr raddau A* i E yn 2011-2012 a chyflawnodd tua hanner yr holl ddysgwyr raddau A* - B. Yn yr un modd, cyflawnodd dysgwyr yn dda ar gyrsiau UG yn yr un flwyddyn, gydag 88% yn cyflawni graddau A*-E. At ei gilydd, mae dysgwyr yn cyflawni'r lefelau disgwyliedig mewn pynciau A2 o gymharu â'r lefelau a ragfynegwyd ar sail eu cyrhaeddiad blaenorol mewn TGAU yn yr ysgol. Fodd bynnag, roedd dysgwyr yn gyffredinol islaw'r lefelau a ragfynegwyd mewn pynciau UG yn 2011-2012 am y tro cyntaf.

Mae dysgwyr yn cyflawni'n dda ar Gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Yn 2010-2011, roedd cyfraddau cyrhaeddiad ar lefelau Sylfaen, Canolraddol ac Uwch i gyd ymhell uwchlaw'r cyfraddau cyfartalog ar gyfer colegau eraill yng Nghymru.

At ei gilydd, mae dysgwyr benywaidd yn perfformio'n well na dysgwyr gwrywaidd yn y coleg. Mae dysgwyr o ardaloedd ag amddifadedd uchel yn perfformio'n dda o gymharu â dysgwyr o ardaloedd eraill ar y cyfan. Yn yr un modd, mae dysgwyr sy'n cael y Lwfans Cynhaliaeth Addysgol yn cyflawni ar gyfradd ychydig yn uwch na'r gyfradd ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn cael y Lwfans Cynhaliaeth Addysgol. Mae'r ganran fach iawn o ddysgwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol yn cyflawni ar lefel debyg i'r holl ddysgwyr eraill yn y coleg.

Yn y dosbarthiadau a arsylwyd yn ystod yr arolygiad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu gwybodaeth a medrau galwedigaethol ac

academaidd priodol. Maent yn caffael gwybodaeth a dealltwriaeth newydd o'u pynciau ac yn cymhwyso dysgu blaenorol yn dda i sefyllfaoedd newydd a gwahanol. Maent yn cymryd rhan yn dda mewn gweithgareddau ystafell ddosbarth a gweithdy ac yn cyfrannu'n effeithiol at dasgau dosbarth cyfan, grŵp ac unigol. Mae medrau llafar dysgwyr yn dda ar y cyfan, ac mae mwyafrif y dysgwyr yn siarad yn hyderus ac yn glir yn y dosbarth. Mae nifer sylweddol o ddysgwyr ar draws y coleg yn datblygu ac yn arddangos eu medrau galwedigaethol yn dda mewn amgylchedd cystadleuol. Mae'r ymarferwyr mwy abl a dawnus yn llwyddo mewn cystadlaethau medrau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn defnyddio asesiadau diagnostig cychwynnol yn dda ac yn gwybod pa feysydd penodol o lythrennedd y mae angen iddynt eu datblygu. Mae dysgwyr sy'n cael cymorth ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu lefelau priodol o lythrennedd. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn datblygu eu medrau sillafu, atalnodi a gramadeg yn gyson trwy gydol eu cwrs astudio.

Mae llawer o ddysgwyr yn mynegi eu hunain yn dda, yn dangos medrau llafaredd da ac yn defnyddio iaith dechnegol yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ysgrifennu'n glir at ystod o ddibenion ac yn cyflwyno eu gwaith yn dda. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr lefel 3 yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig lefel uwch yn gyson.

Mae nifer gynyddol o ddysgwyr yn cwblhau eu dysgu cyfan neu ran o'u dysgu yn Gymraeg neu yn ddwyieithog. Mae dysgwyr ar nifer fach o gyrsiau gofal, gwallt a harddwch, ffasiwn ac amaethyddiaeth yn cwblhau eu holl astudiaethau yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o ddysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol yn eu dysgu ac mewn gweithgareddau cymdeithasol a chwaraeon, fel dydd Gŵyl Dewi a digwyddiadau Santes Dwynwen. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr sy'n cwblhau unedau ar eu cyrsiau yn Gymraeg, fel 'Iaith ar Waith', Cymraeg mewn cymdeithas ddwyieithog ac ystod o Unedau Agored Cymru. Cwblhaodd dros 90 o ddysgwyr y cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cyfathrebu yn Gymraeg neu yn ddwyieithog yn 2011-2012.

**Lles: Da**

Mae ymddygiad dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth ac o amgylch y coleg yn dda iawn. Mae'r diwylliant parch yn thema amlwg ar draws y coleg ac mae dysgwyr yn glir iawn ynghylch effaith ymgyrchoedd 'Parch' a 'Byddwch yn Ddiogel' y coleg. Mae dysgwyr yn ystyried y coleg yn amgylchedd diogel ac maent yn hyderus y gallant gysylltu â staff pan fydd angen cymorth arnynt.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cymryd rhan yn dda yn y sesiynau a arsylwyd ac maent yn datblygu perthynas dda gyda thiwtoriaid, gweithwyr cymorth a chyfoedion. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau dysgu dosbarth cyfan, unigol a grŵp ac maent yn mwynhau eu dysgu. Nid yw nifer fach o ddysgwyr yn ymgysylltu'n ddigon llawn mewn dysgu. Maent yn oddefgar yn ystod sesiynau holi ac maent yn dibynnu ar ddysgwyr eraill neu athrawon i roi atebion i gwestiynau neu dasgau.

Mae presenoldeb a phrydlondeb dysgwyr yn dda. Y gyfradd presenoldeb ar draws y coleg ar gyfer dysgwyr amser llawn a rhan-amser yw 87% ar hyn o bryd. Mae dysgwyr yn glir ynghylch polisi'r coleg ar bresenoldeb a hwyrni a goblygiadau hyn iddyn nhw.

Mae dau gynrychiolydd dysgwyr ar bob cwrs amser llawn. Maent yn mynychu paneli dysgwyr traws-coleg a meysydd cwricwlwm ac yn adrodd yn ôl am safbwyntiau eu grŵp ac yn dylanwadu ar benderfyniadau. Mae'r coleg wedi ymateb yn dda i faterion a godwyd gan gynrychiolwyr dysgwyr ac mae wedi gwneud newidiadau i amserlenni a threfniadau cludiant. Maent yn cyfrannu at drafodaethau ar addysgu a dysgu yn y paneli llais y dysgwr meysydd cwricwlwm tymhorol. Mae dau gynrychiolydd dysgwyr ar gorff llywodraethol y coleg.

Mae 49 o lysgenhadon myfyrwyr yn y coleg. Mae'r dysgwyr hynny sydd wedi cyfrannu at fywyd cymunedol yn yr ysgol ac sy'n gyflawnwyr profedig yn gwneud cais i fod yn llysgenhadon blwyddyn gyntaf ar draws y coleg. Mae'r dysgwyr hyn yn gwneud cais i fod yn llysgennad maes cwricwlwm yn eu hail flwyddyn. Mae dysgwyr sy'n ymgymryd â'r rôl hon yn gadarnhaol ynglŷn â'i heffaith ar eu hyder a'i bod wedi eu helpu wrth gwblhau ceisiadau prifysgol a cheisiadau am swydd.

Mae dysgwyr, yn enwedig y rhai ar Gymhwyster Bagloriaeth Cymru, yn cymryd rhan mewn ystod o brosiectau cymunedol a phrosiectau codi arian; er enghraifft, codi arian i greu llyfryn i blant ar dechnegau achub bywyd.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan ym mhrosiect helaeth 5 x 30 y coleg. Mae'r prosiect yn llwyddiannus o ran cynyddu ymwybyddiaeth dysgwyr o fyw yn iach a chadw'n heini. Mae nifer y dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau 5x30 yn y coleg wedi cynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae Coleg Sir Gâr yn darparu ystod eang iawn a phriodol o gymwysterau ar gyfer dysgwyr a'u cyflogwyr. Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd da i ddysgwyr ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, beth bynnag fo'u man cychwyn. Mae'r coleg yn cynnig cyfleoedd da iawn i ddysgwyr fynd ymlaen o gymwysterau lefel mynediad i gymwysterau lefel gradd mewn ystod eang o feysydd dysgu. Cryfder arbennig yn y coleg yw ei berthynas waith agos gyda chyflogwyr a chynghorau sgiliau sector o ran darparu cymwysterau sy'n bodloni anghenion diwydiannol penodol, yn enwedig mewn gweithgynhyrchu, diwydiannau'r tir ac adeiladu. Mae dysgwyr ar gyrsiau lefel 3 mewn chwaraeon yn cael cyfleoedd da i ddefnyddio meddalwedd ddadansoddol chwaraeon gyfoes, fel offeryn 'game breaker' a ddefnyddir gan glybiau rygbi blaenllaw.

Mae'r coleg yn defnyddio gwybodaeth y farchnad lafur yn dda ac mae'n ychwanegu at y wybodaeth hon gyda'i gwybodaeth fanwl am anghenion diwydiant yn yr ardal. Mae ei berthynas waith agos gyda chyflogwyr yn ei helpu i wneud cyfatebiaethau agos â'u hanghenion yn yr elfennau hyfforddi yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith yn y diwydiant adeiladu.

Mae datblygu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru wedi cael ei reoli'n ofalus, a chynigir y cymhwyster i ystod eang a phriodol o ddysgwyr lefel 3. Mae'r coleg yn rhoi anghenion dysgwyr unigol a'u dyheadau yn gyntaf cyn penderfynu p'un a fyddant yn astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Mae dros 1,000 o ddisgyblion 14-16 oed yn cymryd rhan mewn ystod gynhwysfawr o gyrsiau galwedigaethol o lefel cyn mynediad i lefel 3 bob wythnos. Mae'r coleg yn darparu'r cyfleoedd hyn mewn ysgolion lleol ac ar safleoedd y coleg.

Mae gan y coleg ystod eang iawn o weithdrefnau i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau yn gysylltiedig â gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau sy'n para hyd at dri mis ar ffermydd mewn amaethyddiaeth. Mae dysgwyr ar gyrsiau chwaraeon yn gweithio fel hyfforddwyr chwaraeon mewn ysgolion. Mae dysgwyr ar gyrsiau arlwyo a lletygarwch yn gweithio am gyfnodau estynedig gyda chyflogwyr lleol.

Mae dysgwyr mwy abl a dawnus ar bob lefel yn cael cyfleoedd rhagorol i ddatblygu a dangos eu doniau. Caiff yr holl ddysgwyr yn y coleg eu hannog i gymryd rhan yng nghystadlaethau medrau'r Byd, y DU a Chymru mewn ystod eang o feysydd galwedigaethol, academaidd a chwaraeon. Mae'r cyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i gyflawni ac arddangos rhagoriaeth yn eu gwahanol ddisgyblaethau i gynulleidfa eang iawn. Caiff dysgwyr 14-16 oed mewn ysgolion yn ardal Llanelli gyfleoedd rhagorol i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau a gynlluniwyd i herio a hyrwyddo cyflawniad uchel mewn perfformiad artistig, chwaraeon, gwyddoniaeth, technoleg cerddoriaeth a thechnoleg trwy'r coleg.

Mae gan y coleg ddarpariaeth hynod effeithiol ac arloesol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd dysgwyr ar draws holl feysydd y coleg ac ar bob lefel. Mae wedi defnyddio dull sensitif a chynhwysfawr i ddatblygu medrau ac ymrwymiad staff i'r rhaglen trwy roi cymorth priodol ac amserol i staff a darparu deunyddiau addysgu ar eu cyfer. Mae'r rhain yn galluogi staff i wella eu medrau eu hunain a'u galluogi i helpu dysgwyr yn effeithiol. Mae'r coleg yn darparu ystod eang o ddeunyddiau cymorth ar gyfer staff ar safle Moodle y coleg. Mae'r mesurau hyn wedi bod yn hynod effeithiol wrth fagu hyder athrawon ym mhob maes i ddatblygu medrau llythrennedd dysgwyr.

Mae gan ddysgwyr gynlluniau dysgu unigol i wella eu medrau llythrennedd. Mae staff yn monitro ac yn adolygu cyflawniad dysgwyr o ran y targedau hyn yn rheolaidd. Mae'r coleg wedi cynllunio a rhoi canllaw marcio clir ar waith ar gyfer sillafu, atalnodi a gramadeg sy'n cynnwys dadansoddiad o gamgymeriadau. Mae mentrau pellach ar gyfer gwella llythrennedd yn cynnwys 'her y chwe llyfr' pan gaiff dysgwyr eu hannog i ddarllen chwe llyfr o ganolfan adnoddau dysgu'r coleg ac ysgrifennu adroddiadau byr ar eu llyfrau.

Mae'r coleg yn darparu cronfeydd geiriau galwedigaethol, geiriaduron technegol a galwedigaethol a phrofion sillafu ar gyfer dysgwyr. O ganlyniad i roi'r holl fesurau hyn ar waith yn gyson, mae dysgwyr wedi gwella safon eu gwaith ysgrifenedig ac maent yn ymfalchïo'n fawr yn y cynnydd y maent wedi'i wneud.

Mae Coleg Sir Gâr yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn y coleg. Mae'r 'Tîm Cymraeg' yn darparu cyfeiriad strategol cryf o ran rhoi ystod eang o fesurau effeithiol ar waith i wella medrau dwyieithog dysgwyr a staff. Cyflwynir ystod gynyddol eang o gyrsiau yn ddwyieithog, a rhoddir cyfleoedd da i ddysgwyr gymryd rhan mewn rhaglenni Cymraeg a dwyieithog. Mae'r rhain yn cynnwys craidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru a gyflwynir yn Gymraeg ar y rhaglen Safon Uwch a Diplomâu BTEC Estynedig mewn Amaethyddiaeth a Ffasiwn.

Mae'r coleg wedi ymrwymo'n gryf i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ble bynnag y gellir ei chysylltu â chyd-destun galwedigaethol, yn ogystal â thrwy Gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae staff yn dewis deunyddiau dysgu'n ofalus i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn deall sut gallant wneud cyfraniadau gwerth chweil at fentrau fel 'Masnach Deg' a gweithgareddau entrepreneuraidd perthnasol fel ailgylchu dillad ail-law.

**Addysgu: Da**

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio a strwythuro eu sesiynau'n dda. Mae athrawon yn paratoi cynlluniau gwersi a chynlluniau gwaith manwl sy'n cynnwys nodau ac amcanion priodol. Maent yn rhannu'r rhain gyda'u dysgwyr ar ddechrau'r sesiwn, yn mynd i'r afael â nhw wrth i'r sesiwn fynd rhagddi ac yn cyfeirio atynt ar ddiwedd y sesiwn i asesu cynnydd dysgwyr. Maent yn defnyddio proffiliau dysgwyr manwl i'w helpu i gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n bodloni anghenion penodol pob dysgwr. Mae cynlluniau gwersi'n cynnwys datblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr mewn cyd-destun galwedigaethol priodol.

Ym mwyafrif y sesiynau a arsylwyd, mae athrawon yn defnyddio ystod dda o ddulliau a gweithgareddau addysgu i gynnal diddordeb dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau grŵp cyfan, pâr, grŵp bach ac un i un. Ym mwyafrif y sesiynau, roedd cyflymder y gwaith yn briodol i gynnal diddordeb dysgwyr a chynnig digon o her i ymestyn gwybodaeth a phrofiad pob dysgwr. Fodd bynnag, mewn nifer fach o sesiynau a arsylwyd, roedd y cyflymder yn rhy araf. O ganlyniad, mae dysgwyr yn rhoi'r gorau i ganolbwyntio, yn colli diddordeb yn eu gwaith ac yn gwneud cynnydd arafach.

At ei gilydd, mae athrawon yn rheoli sesiynau yn dda. Mae perthynas dda iawn rhwng athrawon a dysgwyr, sy'n ffafriol i amgylchedd dysgu cefnogol. Mae athrawon yn herio dysgwyr sy'n hwyr mewn modd priodol ac yn delio'n dda iawn ag ymddygiad amhriodol achlysurol iawn.

Mae athrawon yn defnyddio technoleg gwybodaeth yn dda yn eu haddysgu. Yn y rhan fwyaf o achosion, lle mae byrddau gwyn rhyngweithiol ar gael, mae athrawon yn eu defnyddio'n dda i gefnogi addysgu a dysgu. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn annog dysgwyr i ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol ddigon.

Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio holi yn eu sesiynau i brofi gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd yr holi hwn yn amrywio'n eang o ragorol i ddigonol. Ym mwyafrif y sesiynau a arsylwyd, mae'r holi'n effeithiol, ac mae athrawon yn cyfeirio cwestiynau at unigolion, grwpiau a'r dosbarth cyfan.

Maent yn herio dysgwyr yn briodol, yn eu hannog i ymhelaethu eu hatebion a dangos dealltwriaeth well o'r pwnc. Ym mwyafrif y sesiynau lle'r oedd yr holi'n llai effeithiol, mae athrawon yn gofyn cwestiynau sy'n rhy gyffredinol heb roi llawer o gyfleoedd i ddysgwyr esbonio'u hatebion neu eu gwybodaeth am y pwnc.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith dysgwyr yn rheolaidd. Maent yn rhoi adborth ysgrifenedig da fel bod dysgwyr yn gwybod sut i wella'u gwaith. Mae llawer o athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ganllaw llythrennedd ar draws y coleg wrth gywiro gwaith ysgrifenedig ar gyfer sillafu, atalnodi a gramadeg. Fodd bynnag, mewn nifer fach o achosion, mae'r adborth yn rhy fyr ac nid yw'n rhoi cyfarwyddyd digon clir i ddysgwyr ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae athrawon yn gwneud defnydd helaeth o system ryngweithiol newydd iSystem Gâr. Maent yn defnyddio'r system gwybodaeth reoli ddatblygol ac effeithiol hon i fonitro presenoldeb dysgwyr, asesu a gosod targedau ar gyfer gwella. Maent yn defnyddio'r system i baratoi adroddiadau cywir ar gyfer rhieni. Mae dysgwyr yn defnyddio'r system i wirio eu cynnydd a'u perfformiad eu hunain.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

At ei gilydd, mae'r coleg yn cynorthwyo dysgwyr yn dda iawn. Mae ganddo ystod gynhwysfawr o wasanaethau cymorth dysgwyr. Caiff y rhain eu cydlynu'n effeithiol i fodloni anghenion personol ac academaidd unigol dysgwyr. Mae'r coleg yn rhoi anogaeth a chymorth da i ddysgwyr gynnig eu barn ar eu profiadau tra byddant yn mynychu'r coleg a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu dysgu a'u lles.

Mae'r coleg wedi gwneud trefniadau da ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles dysgwyr. Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac maent yn glir ynghylch ble y gallant gael cymorth os oes ei angen arnynt. Mae'r coleg yn pwysleisio pwysigrwydd diogelwch personol. Mae'r ffaith ei fod yn hyrwyddo'r ymgyrch 'Byddwch yn ddiogel' yn annog dysgwyr i drafod materion sy'n peri pryder iddynt. Mae wedi cymhwyso gweithdrefnau'n effeithiol ac yn gyson ar gyfer delio ag ymddygiad annerbyniol a allai gael effaith andwyol ar les dysgwyr. Mae ei ymgyrch 'Parch' yn hyrwyddo ymddygiad da ymhlith dysgwyr ac yn eu hannog i fod yn ystyriol o bobl eraill.

Mae gan y coleg bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae'r coleg yn annog dysgwyr i werthfawrogi manteision byw yn iach trwy gyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau corfforol a dewis opsiynau dietegol iach. Ar y cyd â gweithwyr proffesiynol yn y maes, mae'n cyflwyno rhaglen o destunau sy'n gysylltiedig ag iechyd, fel camddefnyddio sylweddau, diogelwch ar y rhyngrwyd ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl. Mae'r rhain yn helpu dysgwyr i ddatblygu a deall materion ehangach sy'n cyfrannu at iechyd a lles da.

Rhoddir cyngor ac arweiniad da i ddysgwyr cyn iddynt ddod i'r coleg a thra byddant yn dilyn rhaglen. Cânt gyfnod ymsefydlu strwythuredig sy'n eu cyflwyno i'r coleg a'r cymorth y gall ei roi iddynt. Mae gan bob dysgwr amser llawn diwtor personol ac maent yn cymryd rhan mewn sesiynau tiwtorial grŵp ac un i un sy'n cefnogi eu cynnydd academaidd a phersonol yn dda.

Mae gan y coleg ddigon o staff cymorth i roi cymorth a chyngor arbenigol ychwanegol i ddysgwyr pan fydd ei angen arnynt. Er enghraifft, mae'r tîm mentoriaid cymorth dysgwyr yn gweithio'n effeithiol gyda dysgwyr sy'n agored i niwed i roi iddynt y cymorth sydd ei angen arnynt i gymryd rhan mewn dysgu. Mae'r coleg yn cysylltu'n dda ag asiantaethau allanol i ychwanegu at y cymorth hwn pan fydd angen ymyrraeth arbenigol ychwanegol ar ddysgwyr i sicrhau eu lles.

Mae gan y coleg system effeithiol i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n nodi anghenion unigol dysgwyr yn dda cyn ac yn ystod eu hastudiaethau. Mae hyn yn golygu y gellir rhoi cymorth dysgu a chymorth arbenigol cyn gynted ag y bo modd. Mae'r cymorth amrywiol, teilwredig a thargedig hwn yn cefnogi anghenion dysgwyr unigol yn dda iawn.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r pennaeth a'r uwch reolwyr wedi sefydlu ethos coleg sy'n ddiogel, yn gynhwysol ac yn oddefgar. Maent wedi gosod nod strategol cryf i sefydlu darpariaeth a chyfle cyfartal i bob dysgwr ar draws holl safleoedd y coleg. Mae'r coleg yn darparu amgylchedd cynhwysol a chadarnhaol ar gyfer pob dysgwr, ni waeth am eu dysgu blaenorol, eu hamgylchiadau personol na'u cefndir.

Mae mentoriaid dysgwyr yn hyrwyddo cynwysoldeb cymdeithasol yn dda, ac mae'r coleg yn cynnig mynediad agored at y cwricwlwm i ddysgwyr o bob cefndir. Mae'r coleg wedi ymrwymo'n gryf i gydraddoldeb ac mae'n herio pob math o wahaniaethu yn effeithiol. Mae'r coleg wedi rhoi ar waith nifer o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, trwy ymgyrch 'Parch' y coleg, i hyrwyddo materion cydraddoldeb ymhellach. Mae'r ymgyrch hon yn hynod effeithiol wrth hyrwyddo a chynnal ethos o oddefgarwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws pob campws. Caiff effaith ddwys ar ymddygiad dysgwyr a'u dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb. Fe wnaeth dysgwyr y Celfyddydau Perfformiadol ddyfeisio a pherfformio darnau ar faterion amrywiaeth. Mae'r rhain wedi bod yn hynod lwyddiannus o ran ategu'r gwerthoedd hyn ar draws y coleg. Caiff wythnosau thema a sesiynau tiwtorial eu defnyddio'n dda i atgyfnerthu ethos y coleg a hyrwyddo dealltwriaeth dysgwyr o gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae gan y coleg Gynllun Cydraddoldeb Strategol priodol sy'n nodi camau gweithredu a thargedau clir i ddatblygu materion cydraddoldeb. Caiff hwn ei fonitro'n effeithiol gan y Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae'r coleg yn cyflwyno hyfforddiant da i staff ar faterion cydraddoldeb ac mae rheolwyr y coleg wedi cael hyfforddiant priodol ar Fesurau Effaith Cydraddoldeb. O ganlyniad, rhoddwyd nifer o fentrau cadarnhaol ar waith, gan gynnwys ethol swyddog ac is-grŵp Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol fel rhan o undeb y myfyrwyr. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar herio stereoteipiau a gwella profiad dysgwyr sydd â nodweddion a ddiogelir.

Mae mwyafrif adeiladau'r coleg yn dda ac yn cael eu cynnal yn dda. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd dysgu, nid yw adeiladau'n bodloni safonau uchel mwyafrif adeiladau'r coleg. At ei gilydd, mae'r coleg yn darparu amgylcheddau dysgu da ac mae'r rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth a gweithdai yn ddeniadol ac yn cynnwys adnoddau da. Gall y rhan fwyaf o ddysgwyr fanteisio'n dda ar ystod ddefnyddiol o

adnoddau ac offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Yn y cyfleusterau diweddaraf a adeiladwyd, mae offer safon diwydiant ac amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel. Mae'r rhain yn cynnwys yr Amgylchedd Adeiledig yn Rhydaman, Gwyddorau Anifeiliaid a Cherbydau Modur ym Mhibwrlwyd, a Chelf a Dylunio yn Ffynnon Job.

Mae gan y coleg gyfleusterau llyfrgell cynhwysfawr ar bob campws. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau da ac mae ganddynt swyddogaeth ganolog mewn gweithgareddau addysgu a dysgu. Mae nifer gynyddol o ddysgwyr yn defnyddio adnoddau o'r llyfrgell o ganlyniad i 'Her y Chwe Llyfr', sydd wedi hyrwyddo datblygu llythrennedd yn llwyddiannus ar draws y coleg.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn darparu arweinyddiaeth gref a chlir. Penodwyd y pennaeth presennol yn 2010 ac mae wedi cael effaith sylweddol ar ddiwylliant ac ethos y coleg ers ei benodi. Mae cynllun strategol a datganiad cenhadaeth y coleg yn ei gwneud yn glir bod cyfle cyfartal a gwella profiad pob dysgwr yn sylfaenol i bob agwedd ar waith y coleg. Rhoddwyd yr uchelgeisiau hyn ar waith, ac fe'u dangosir yn rheolaidd ar draws y coleg.

Ailstrwythurwyd yr uwch dîm rheoli gan y pennaeth yn 2010 a gwnaeth benodiad newydd i'r tîm yn 2013. Mae'r tîm wedi cael ei sbarduno o'r newydd trwy ddiffinio eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau atebolrwydd yn glir. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar yr ystod eang o weithgareddau yn y coleg. Mae rheolwyr wedi'u grymuso i ysgogi newid mewn amgylchedd dynamig a chefnogol.

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn cyfathrebu cyfeiriad ac uchelgais strategol y coleg i bob aelod o staff yn dda. Mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i wneud yn siŵr bod blaenoriaethau strategol allweddol y coleg yn cael eu cyflawni. Mae cyfathrebu da yn bodoli rhwng rheolwyr a staff ar draws y coleg. Mae rheolwyr a staff ar bob lefel yn mynychu ystod eang o gyfarfodydd priodol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys ffocws cryf ar fonitro perfformiad, gosod targedau a gwella safonau.

Mae staff a rheolwyr yn defnyddio ystod gynhwysfawr o ddata a gwybodaeth reoli yn dda i fonitro perfformiad mewn meysydd allweddol, gan gynnwys presenoldeb, cwblhau a chyrhaeddiad. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi tanberfformio a meysydd lle mae angen iddynt wella. Mae uwch reolwyr yn gwybod yn dda beth yw cryfderau a gwendidau'r coleg. Maent yn blaenoriaethu meysydd allweddol i'w gwella yn briodol ac yn neilltuo digon o adnoddau i gyflawni eu nodau. Fodd bynnag, mae llawer o newidiadau wedi digwydd yn ddiweddar ac nid ydynt wedi cael digon o amser i effeithio'n llawn ar feysydd allweddol, fel addysgu a dysgu.

Mae uwch reolwyr yn cynorthwyo pob aelod o staff yn dda wrth gyflawni eu rolau. Mae staff ar bob lefel ar draws y coleg yn deall eu rolau a'r hyn a ddisgwylir ohonynt

o ran ymdrechu am ragoriaeth, ac maent yn herio dysgwyr i gyflawni eu llawn botensial.

Mae’r coleg wedi gwneud trefniadau priodol i reoli perfformiad pob un o’r staff. Mae wedi cyflwyno system ddiwygiedig yn ddiweddar sy’n cysylltu perfformiad staff â blaenoriaethau allweddol y coleg, gan gynnwys addysgu a dysgu a medrau rheoli. Caiff rheoli perfformiad ei gefnogi’n dda gan ystod gynhwysfawr o weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus.

Ceir llywodraethu cadarn a dylanwadol yn y coleg. Mae’r berthynas rhwng llywodraethwyr ac uwch reolwyr wedi gwella’n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf. Mae gan Fwrdd y Llywodraethwyr weledigaeth glir ar gyfer y coleg, ac mae’n cynnig her gadarn i’r pennaeth a’r uwch reolwyr. Caiff llywodraethwyr adroddiadau manwl a chynhwysfawr rheolaidd yn ymwneud â pherfformiad y coleg. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i herio’r pennaeth a’r uwch reolwyr ynghylch cyflawni dangosyddion perfformiad allweddol, gan gynnwys safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, y ddarpariaeth Gymraeg a chyllid.

Mae llywodraethwyr profiadol a llywodraethwyr a benodwyd yn ddiweddar fel ei gilydd yn meddu ar ystod eang o fedrau ac arbenigedd addysgol, diwydiannol a masnachol. Maent yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau yn dda. Mae’r llywodraethwyr yn rhoi lefelau da o gymorth i’r pennaeth a’r uwch dîm rheoli o ran sefydlu gweledigaeth glir, uchelgais a gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y coleg. Mae gan Fwrdd y Llywodraethwyr weithdrefnau effeithiol i fonitro ac adrodd ar ei berfformiad ei hun.

Mae’r coleg yn gweithio’n dda iawn gydag ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid, ac mae’n ymateb yn dda i anghenion lleol a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae’n gweithio’n effeithiol mewn partneriaeth â Chyngor Sir Gâr, ysgolion, cyflogwyr a’r gymuned. Mae’r partneriaid hyn yn cydweithio’n dda ar ystod o ddatblygiadau, gan gynnwys darpariaeth 14-19, datblygu llythrennedd, dwyieithrwydd, adfywio economaidd a’r gostyngiad yn y niferoedd nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y coleg weithdrefnau da iawn i arfarnu a gwella’i berfformiad. Mae’n defnyddio’r deilliannau o’r gweithdrefnau hyn yn dda i lywio a chynllunio ar gyfer gwella. Cynhelir hunanasesiadau ar lefel cwrs, maes cwricwlwm, maes swyddogaethol a choleg cyfan. Mae’r broses yn fanwl ac yn arfarnol ac fe gaiff ei hategu gan ystod o ffynonellau tystiolaeth trylwyr. Mae’r coleg yn gwella cysondeb trwy ddull strwythuredig a thrylwyr o adolygu a safoni. Gwnaed gwaith ar safoni asesiadau meysydd swyddogaethol yn ddiweddar.

Caiff iSystem Gâr, adroddiadau rheoli ar-lein byw a data dangosfwrdd eu defnyddio’n helaeth gan staff a rheolwyr i adolygu data ac arfarnu perfformiad y coleg. Mae mynediad dangosfwrdd byw ar gyfer pob aelod o staff, sy’n eu galluogi i fonitro presenoldeb a pherfformiad cadw yn effeithiol.

Mae'r Grŵp Gwella Ansawdd, y Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd a'r Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau yn gyfrifol am fonitro pob agwedd ar ansawdd. Maent yn gwneud y gwaith hwn trwy fabwysiadu ethos heriol ond cefnogol.

Mae'r coleg yn rhoi pwyslais cryf ar wella profiadau dysgwyr ac adlewyrchir hyn ym mlaenoriaethau strategol y Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau. Mae gan y coleg system sefydledig ar gyfer arsylwi addysgu a dysgu yn rheolaidd. Mae wedi gosod targedau heriol i bron pob un o'r arsylwadau gwersi fod yn dda neu'n rhagorol.

Mae'r trefniadau i gasglu safbwyntiau dysgwyr ar y gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer yn effeithiol iawn. Cesglir safbwyntiau dysgwyr trwy arolygon a grwpiau campws a maes cwricwlwm. O ganlyniad i wrando ar safbwyntiau dysgwyr, mae'r coleg wedi gwneud newidiadau i amserlenni, cynllunio aseiniadau, darpariaeth y llyfrgell a threfniadau cludiant.

Mae staff yn cymryd rhan yn helaeth mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol y tu allan i'r coleg, sy'n cynnwys Rhwydweithiau Colegau Cymru, Cynghorau Sgiliau Sector, grwpiau cyflogwyr ac ysgolion. Dechreuwyd y prosiect Arloesi yn y coleg ym Medi 2012 ac mae'n cynnwys staff mewn arbrofion a gefnogir mewn addysgu a dysgu. Mae hyn wedi cynnwys creu cymunedau proffesiynol sy'n anelu at gyflawni rhagoriaeth mewn addysgu a dysgu. Yn 2012-13, mae 126 o staff amser llawn yn datblygu eu harfer broffesiynol mewn dros 35 o brosiectau a gefnogir. Mae'r coleg wedi cyflawni lefelau uchel o ymgysylltu yn ystod blwyddyn gyntaf y fenter hon.

Mae'r coleg wedi ymateb yn dda i argymhellion yr arolygiad diwethaf gan Estyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn rhoi blaenoriaeth strategol uchel i weithio mewn partneriaeth. Mae'r coleg yn gweithio'n effeithiol iawn gydag ystod eang o bartneriaid sy'n cynnwys yr awdurdod lleol, ysgolion, cyflogwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill. Mae'r partneriaethau wedi'u sefydlu'n dda ac mae lefel uchel o ymddiriedaeth ar y ddwy ochr rhwng partneriaid. Mae'r coleg yn gweithio'n effeithiol iawn gyda'r partneriaid hyn i ddarparu ystod eang o gyfleoedd dysgu ledled Sir Gaerfyrddin.

Mae'r coleg yn brif bartner a darparwr mewn datblygiadau 14-16 ac 16-19. Mae'r coleg yn gweithio'n dda iawn gyda'r awdurdod lleol i gynllunio datblygiadau newydd, fel ad-drefnu ysgolion uwchradd yn Ninefwr a darparu cyrsiau galwedigaethol mewn ysgolion uwchradd yn Sir Gaerfyrddin.

Sefydlwyd trefniant llywodraethu ar y cyd ffurfiol gyda'r awdurdod addysg lleol ar gyfer thri chlwstwr dysgu a'r clwstwr cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Mae hwn yn drefniant llywodraethu hynod arloesol ac effeithiol sy'n cynnwys staff a rheolwyr o'r coleg, yr awdurdod lleol, ysgolion a chyflogwyr yn cydweithio i reoli'r ddarpariaeth. Mae'r trefniant hwn yn hyrwyddo cydweithredu, yn cael gwared ar gystadleuaeth ddi-fudd rhwng darparwyr yn sylweddol ac yn galluogi'r coleg, ysgolion, cyflogwyr a'r awdurdod i gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm 14-19 yn effeithiol i fodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr.

Caiff y ddarpariaeth alwedigaethol helaeth ar gyfer disgyblion 14-16 oed ei chefnogi'n gryf gan yr ysgolion uwchradd yn y tri dalgylch daearyddol a'r clwstwr Iaith Gymraeg ledled y sir (Partneriaith). Mae'r ddarpariaeth hon yn hynod lwyddiannus ac yn cynnig cyfleoedd cynyddol i ddysgwyr fynd ymlaen i addysg bellach. Mae'n cyfrannu'n sylweddol at drefniadau pontio a darpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy abl a dawnus. O ganlyniad, mae tua 1,000 o ddisgyblion ysgol yn dilyn cyrsiau yn y coleg bob wythnos.

Mae'r coleg yn cyfrannu'n sylweddol at leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r coleg yn darparu rhaglenni effeithiol sy'n bodloni anghenion dysgwyr sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio o ddysgu.

Mae gan y coleg gysylltiadau rhagorol a hirsefydledig gydag ystod eang o gyflogwyr ar draws llawer o feysydd dysgu, gan gynnwys Peirianneg, Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Astudiaethau'r Tir, Chwaraeon, Hamdden a Thwristiaeth a'r Celfyddydau Perfformiadol. Mae'r coleg yn cydweithio'n agos â'r cyflogwyr hyn i fodloni eu hanghenion hyfforddi a datblygu. Mae'r berthynas hon wedi gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr yn sylweddol ac wedi cynyddu nifer y dysgwyr mewn cyflogaeth gynaliadwy. Mae busnesau lleol a chenedlaethol yn gweithio mewn partneriaeth â'r coleg i ddarparu ystod eang o brofiad gwaith ar gyfer dysgwyr.

Mae'r coleg yn gweithio mewn partneriaeth â chwe ysgol uwchradd a phartner masnachol i weithredu canolfan medrau galwedigaethol ar gyfer adeiladu. Mae'r bartneriaeth hon wedi cynnig darpariaeth i ddysgwyr ar gyfer y rhaglen brentisiaeth ar y cyd ac i greu cyfleoedd swydd a llwybrau gyrfa rhagorol ar gyfer dysgwyr adeiladu.

Ar lefel addysg uwch, mae'r coleg wedi ymateb yn dda i gynllun rhanbartholi Llywodraeth Cymru. Mae wedi datblygu partneriaeth ragorol gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae'r brifysgol yn dilysu'r ddarpariaeth addysg uwch ar gyfer tua 950 o ddysgwyr. Trwy'r berthynas hon, mae'r coleg wedi datblygu'r Ysgol gyntaf ar y cyd ar gyfer y Celfyddydau Creadigol yn llwyddiannus. Mae'r rhaglen hon yn pontio addysg bellach ac addysg uwch trwy ddarparu adnoddau ychwanegol a chyfleoedd dilyniant i ddysgwyr trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r bartneriaeth hon yn codi dyheadau dysgwyr y coleg trwy weithio'n agos gyda dysgwyr ar raglenni addysg uwch.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r coleg yn rheoli ei adnoddau'n dda iawn. Mae wedi cynnal sefyllfa ariannol sefydlog am sawl blwyddyn, wedi sicrhau bod arian dros ben bob blwyddyn ac nid oes ganddo unrhyw ymrwymiadau benthyca sylweddol. Mae rheolaeth a chynllunio ariannol yn gryf ac mae rheolwyr wedi dirprwyo cyllidebau y maent yn eu defnyddio'n briodol i gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm. Mae uwch reolwyr yn monitro cyllidebau yn effeithiol ac mae'r coleg wedi amrywio ei incwm yn llwyddiannus i leihau ei ddibyniaeth ar gyllid craidd Llywodraeth Cymru.

Mae'r coleg yn defnyddio gwybodaeth feincnodi allanol yn dda i adolygu ei berfformiad. Mae rheolwyr yn cymharu eu perfformiad â cholegau eraill yng Nghymru ac mae hyn yn llywio'r penderfyniadau a wnânt.

At ei gilydd, mae ansawdd yr adeiladau'n dda. Mae'r coleg yn cydnabod bod angen iddo wella rhannau penodol o'r ystâd. Mae wedi dechrau'r broses o benderfynu ar ei flaenoriaethau ar gyfer datblygu a diweddaru ei strategaeth ystadau. O ganlyniad i'w reolaeth ariannol gadarn, mae ganddo gronfeydd sylweddol wrth gefn y gall eu defnyddio i ddechrau'r broses hon.

Mae'r ddarpariaeth offer TGCh yn dda, ac mae'r coleg yn dadansoddi'r defnydd a wneir ohoni yn fanwl. Defnyddir gwybodaeth am ddefnydd i lywio penderfyniadau am gael gwared ar offer a chael offer newydd yn ei le. Mae rhaglen dreigl o ddarparu offer newydd sy'n sicrhau bod dysgwyr yn gallu manteisio'n dda ar galedwedd a meddalwedd gyfoes i gefnogi dysgu, gan gynnwys offer meddalwedd ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar bob cyfrifiadur.

Mae'r coleg yn rhoi pwyslais cryf ar gynaliadwyedd ac mae wedi ennill gwobr y Ddraig Werdd ar lefel 4. Mae wedi lleihau ei ôl-troed carbon yn llwyddiannus ac mae hyn wedi cael ei feincnodi'n ffafriol iawn yn erbyn y sector addysg bellach yng Nghymru.

Mae gan y coleg nifer briodol o staff cymwys a phriodol. Mae'r coleg yn defnyddio staff yn effeithiol ac yn monitro'r defnydd a wneir ohonynt yn dda. Caiff anghenion hyfforddi a datblygu staff eu nodi'n dda trwy gynllunio a gwerthuso strategol a gweithredol. Mae rhaglen hyfforddi a datblygu gynhwysfawr sy'n bodloni anghenion staff a blaenoriaethau datblygu'r coleg yn dda.

At ei gilydd, mae deilliannau ar gyfer dysgwyr yn dda. Mae'r coleg yn rheoli ei gyllid a'i adnoddau dysgu'n dda ac mae felly'n darparu gwerth da am arian ar gyfer ei ddysgwyr.

## Atodiad 1

### Boddhad dysgwyr

Casglwyd safbwyntiau dysgwyr ar y coleg trwy arolwg Llais y Dysgwr Cymru (2013). Ymatebodd dros 1,800 o ddysgwyr i'r arolwg. Roedd tua thraean o ddysgwyr yn ystyried bod y coleg yn dda iawn ar y cyfan, ac roedd 47% arall yn ystyried bod y coleg yn dda ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn credu bod y cwrs y maent yn ei ddilyn yn debyg i'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl neu'n well na'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl. Mae'r rhain yn cyd-fynd yn fras â'r canlyniadau ar gyfer yr holl golegau yng Nghymru. Mae tua 70% o ddysgwyr yn credu eu bod yn cael gwybodaeth dda neu dda iawn gan y coleg, ac mae tua 71% o ddysgwyr yn credu bod y coleg yn dda neu'n dda iawn o ran mesurau iechyd a lles allweddol, fel cadw dysgwyr yn ddiogel, cefnogi ffyrdd iach o fyw a deall gwahanol gefndiroedd. Mae tua 85% o ddysgwyr yn credu bod addysgu a hyfforddi yn y coleg yn dda neu'n dda iawn. Mae'r rhain yn agos at y cyfartaleddau ar gyfer yr holl golegau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae canran y dysgwyr sy'n credu bod yr addysgu'n dda iawn yn eu maes dysgu yn amrywio'n eang o'r ganran isaf, sef 25%, i'r ganran uchaf, sef 74%. Mae tua thri chwarter o ddysgwyr yn credu bod y cymorth a'r gefnogaeth a gânt gan y coleg yn dda neu'n dda iawn. Dengys yr arolwg fod 25% o ddysgwyr yn disgrifio eu hunain yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae'n well gan ryw 20% o ddysgwyr yn y coleg ddysgu yn Gymraeg ac yn Saesneg, o gymharu â'r cyfartaledd, sef 11% ar gyfer yr holl golegau yng Nghymru.

## Atodiad 2

Mae Adroddiadau Deilliannau Dysgwyr ar gyfer 2011-2012 yn dangos bod y cyfraddau cwblhau cyffredinol wedi cynyddu ychydig o 88% i 89% a bod y gyfradd cyrhaeddiad gyffredinol wedi gostwng ychydig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 94% i 89%. Mae cyfradd cwblhad llwyddiannus chwe maes sector pwnc dros 85% ac mae cyfradd cwblhad llwyddiannus wyth maes rhwng 75% a 84%.

Yn hanesyddol, fe wnaeth y cyfraddau llwyddiant ar gyfer pob cwrs yng Ngholeg Sir Gâr wella o 70.3% yn 2008-2009 i 81.5% yn 2010-2011. Fe wnaeth y cyfraddau llwyddiant cyffredinol ar gyfer pob coleg yng Nghymru wella o 78% i 81.2% dros yr un cyfnod. Fe wnaeth cyfraddau llwyddiant y coleg ar gyfer cyrsiau hir wella o 69% i 80.8% dros yr un cyfnod. Fe wnaeth cyfraddau llwyddiant ar gyfer pob coleg yng Nghymru wella o 73.8% i 78.7% dros yr un cyfnod. Fe wnaeth cyfraddau cyrhaeddiad ar gyfer pob cwrs wella o 80% i 92.7% dros yr un cyfnod ac fe wnaeth y cyfraddau cyrhaeddiad cyfartalog ar gyfer pob coleg yng Nghymru wella o 85% i 90%. Yn achos cyrsiau hir, fe wnaeth cyfraddau cyrhaeddiad wella o 80.7% i 92.8% rhwng 2008-2009 a 2010-2011. Fe wnaeth y cyfraddau cyrhaeddiad cyfartalog ar gyfer cyrsiau hir ym mhob coleg yng Nghymru wella o 84% i 89% dros yr un cyfnod.

Roedd cyfraddau cwblhad llwyddiannus ar gyfer 2010-2011 dros 85% mewn chwe maes sector pwnc. Y rhain oedd Manwerthu a Menter Fasnachol, Trin Gwallt a Harddwch, Manwerthu, Lletygarwch, Trin Gwallt a Harddwch a Sgiliau Byw'n Annibynnol. Mae'r rhain yn llunio tua 27% o holl ddarpariaeth y coleg. Mae cyfradd cwblhad llwyddiannus sydd rhwng 75% ac 84% gan bedwar ar ddeg o feysydd sector pwnc. Mae'r rhain yn llunio tua 60% o holl ddarpariaeth y coleg. Yn 2010-2011, roedd cyfradd cwblhad llwyddiannus dau faes islaw'r cyfartaledd ar gyfer yr holl golegau yng Nghymru, sef Hamdden, Teithio a Thwristiaeth, a Gweinyddu Busnes a'r Gyfraith.

Pan gaiff colegau eu gosod yn nhrefn eu cyfraddau cwblhad llwyddiannus cyffredinol, roedd Coleg Sir Gâr yn 7fed o blith y 22 coleg yn 2010-2011. Dyma welliant o'r 10fed safle ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

Mae cyfraddau cwblhad llwyddiannus ar gyfer Diplomâu Cenedlaethol/Estynedig ar lefel 3 yn 2010-2011 yn dda, sef 78%, o gymharu â'r cyfartaledd o 72% ar gyfer pob coleg yng Nghymru. Roedd cyfraddau cwblhad llwyddiannus ar gyfer unedau Agored Cymru yn dda yn 2010-2011, sef 91% ar gyfer lefel 1 a 93% ar gyfer lefel 2. Roedd y cyfartaleddau ar gyfer pob coleg yng Nghymru yn 84% ac 85% yn y drefn honno.

Fe wnaeth cwblhad llwyddiannus medrau allweddol/hanfodol wella o 80% yn 2009-2010 i 82% yn 2010-2011. Mae'r gwelliant hwn yn gosod y coleg yn y chweched safle o'i gymharu â cholegau eraill yng Nghymru.

Yn 2011-2012, cyflawnodd 95% o ddysgwyr graidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel Uwch a chyflawnodd 94% y diploma. Y cyfartaleddau ar gyfer Cymru oedd 92% ac 88% yn y drefn honno. Yn yr un flwyddyn, cyflawnodd 87% y craidd ar lefel Ganolradd a chyflawnodd 85% y Diploma. Y cyfartaleddau ar gyfer Cymru oedd

82% a 76% yn y drefn honno.  Ar lefel Sylfaen, cyflawnodd 94% y craidd a chyflawnodd 91% y Diploma.

O'r 17 Diploma Cenedlaethol sy'n cael eu hastudio yn y coleg, cyflawnodd 37% o'r dysgwyr DDD, a chyflawnodd 64% broffiliau DDD-MMM.  Yn y Diploma Cenedlaethol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, cyflawnodd 96% o ddysgwyr DDD.  O'r 14 Diploma Estynedig, cyflawnodd 22% DDD*-DDD a chyflawnodd 55% DDD*-MMM.  Yn y Diploma lefel 3 mewn Gofal Plant, cyflawnodd 91.7% o ddysgwyr raddau A*-C.  Yn y Diploma mewn Astudiaethau Sylfaen (Celf a Dylunio), cyflawnodd 50% o ddysgwyr ragoriaeth.

O'r 11 Diploma Cyntaf yn y coleg, cyflawnodd 25% o ddysgwyr D* a chyflawnodd 11% D.  Yn y Diploma Cyntaf mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, cyflawnodd 65% o ddysgwyr D*.  Yn 2011-2012, cyflawnodd 49% o'r dysgwyr yn y 13 Diploma lefel 2 raddau A*-C.

Mewn safon uwch yn 2010-2011, cyflawnodd 99% o ddysgwyr raddau A*-E o gymharu â chyfartaledd o 97% ar gyfer Cymru, a chyflawnodd 50% A*-B.  Mewn mathemateg safon uwch, cyflawnodd 55% radd A* neu A.  Y cyfartaledd ar gyfer Cymru oedd 44%.

Ar lefel AS, cyflawnodd 91% o ddysgwyr raddau A-E o gymharu â chyfartaledd o 88% ar gyfer Cymru.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Huw Collins | Arolygydd Cofnodol |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Stephen Davies | Arolygydd Tîm |
| Christine Hooper | Arolygydd Tîm |
| Sandra Barnard | Arolygydd Tîm |
| Bernard Hayward | Arolygydd Tîm |
| Eleanor Davies | Arolygydd Tîm |
| Sharon James | Arolygydd Tîm |
| David Finch | Arolygydd Cymheiriaid |
| Eurwyn Edwards | Arolygydd Cymheiriaid |
| Simon Robson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Guy Lacey | Arolygydd Cymheiriaid |
| Vanessa Morgan | Arolygydd Cymheiriaid |
| John Morgan | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dr Andrew Cornish | Enwebai’r Darparwr |